PWYLLGOR CRAFFU GWASANAETHAU OEDOLION A CHYMUNEDOL

DYDD MERCHER, 19 GORFFENNAF 2023

| | |
|---|---|
| Yn bressenol: | Cynghorydd Taylor(Cadeirydd) |
| | Cynghorwyr Ahmed, Ahmed, Ash-Edwards, Boes, Lent, Lewis a/ac Littlechild |

1 : CADEIRYDD AC AELODAETH O'R PWYLLGOR

Nodwyd

2 : CYLCH GORCHWYL

Nodwyd

3 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorydd McGarry

4 : DATGAN BUDDIANNAU

Dim wedi'u derbyn.

5 : COFNODION

Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 24 Ebrill 2023 a 15 Mai 2023 yn gofnod cywir a chawsant eu llofnodi gan y Cadeirydd.

6 : RHYDDHAU CLEIFION O YSBYTAI YNG NGHAERDYDD AR GYFER Y RHAI SYDD AG ANGHENION GOFAL

Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau fod yr eitem hon yn eu galluogi i ystyried sut mae Cyngor Caerdydd yn hwyluso'r broses o ryddhau cleifion o ysbytai ar gyfer oedolion ag anghenion gofal.

Croesawodd y Cadeirydd, ar gyfer yr eitem hon:

- Y Cynghorydd Norma Mackie, Yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Oedolion
- Jane Thomas, Cyfarwyddwr Oedolion, Tai a Chymunedau, Cyngor Caerdydd
- Carolyne Palmer, Rheolwr Gweithredol, Gwasanaethau Byw'n Annibynnol, Cyngor Caerdydd
- Lisa Wood, Rheolwr Gweithredol, Gwasanaethau Cymunedol i Oedolion, Cyngor Caerdydd
- Dawn Harries, Rheolwr Gweithredol, Cymunedau Lleol a Lles, Cyngor Caerdydd
- Rebecca Knapp, Gweithiwr Cymdeithasol - Rheolwr Tîm Ysbyty

- Diane Walker, Pennaeth Dros Dro y Gwasanaeth Rhyddhau Integredig, GIG
- Stephen Allen, Cyfarwyddwr Rhanbarthol Caerdydd a’r Fro – Llais (Sefydliad Eirioli)
- Demi Barnard, Cymorth Eiriolaeth Cymru

Gwahoddwyd yr Aelod Cabinet i wneud datganiad agoriadol, ac ar ôl hynny rhoddodd Swyddogion gyflwyniad. Wedyn gofynnwyd i'r Aelodau am eu sylwadau, eu harsylwadau a'u cwestiynau.

Trafododd y Pwyllgor y cymhlethdodau a'r rhyngddibyniaethau a all arwain at oedi wrth ryddhau, gan gydnabod y gall gymryd cyfnodau amrywiol o amser yn dibynnu ar anghenion ac amgylchiadau'r unigolyn. Er ei fod yn deall y rhesymau dros oedi, mynegodd y Pwyllgor bryder ynghylch effaith arhosiadau hir yn yr ysbyty ar iechyd a lles unigolyn, gan annog yr Aelod Cabinet i gefnogi ymdrechion i liniaru datgyflyru.

Nododd yr Aelodau fod oedi wrth ryddhau hefyd yn cael goblygiadau sylweddol o ran hygyrchedd ac argaeledd gwasanaethau iechyd yng Nghaerdydd. Cafodd y Pwyllgor sicrwydd gan ymdrechion cydweithwyr iechyd i gydbwyso pwysau drws ffrynt a gofynion rhyddhau a chanmolodd y camau rhagweithiol a gymerwyd gan y Cyngor ac Iechyd wrth gynllunio ar gyfer y gaeaf.

Ar y cyfan, roedd yr Aelodau o'r farn bod y bartneriaeth rhwng y Cyngor ac Iechyd yn ymddangos yn gryf, ond nodwyd meysydd i'w gwella wrth fireinio sianeli cyfathrebu a mabwysiadu terminoleg a rennir. Cefnogodd y Pwyllgor y newid tuag at fodelau ataliol yn y gymuned gan obeithio y byddai'n arwain at fwy o annibyniaeth i unigolion wrth i'r boblogaeth heneiddio.

Roedd yr oedi wrth drosglwyddo gofal gan Lywodraeth Cymru yn ystod y pandemig yn peri pryder i'r Pwyllgor. Fodd bynnag, roedd yn falch o'r Cynllun Gweithredu a gynhyrchwyd ar y cyd ar gyfer mynd i'r afael ag oedi a datblygu Dangosyddion Perfformiad Allweddol (DPA) i nodi rhesymau dros oedi a gwella'r ddarpariaeth gymunedol. Roedd y Pwyllgor yn edrych ymlaen at adolygu'r DPA hyn fel rhan o'i waith monitro perfformiad.

Amlygwyd cyllid cynaliadwy fel rhywbeth hanfodol ar gyfer atal oedi a lliniaru ei effaith. Nododd y Pwyllgor y dylid parhau i lobïo Llywodraeth Cymru am gymorth ariannol ymroddedig i fynd i'r afael â'r heriau a ddaw yn sgil poblogaeth sy'n heneiddio ac yn tyfu.

CYTUNWYD: y byddai’r Cadeirydd, ar ran y Pwyllgor, yn ysgrifennu at yr Aelod Cabinet er mwyn cyfleu arsylwadau’r Pwyllgor wrth drafod y ffordd ymlaen.

7 : EITEMAU BRYS (OS OES RHAI)

Dim wedi’u derbyn.

8 : DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

18 Medi 2023 am 4.30pm

Daeth y cyfarfod i ben am 6.50 pm